

## Circular Walks Leaflets   Taflenni Teithiau Cerdded Cylchog




**Pentyrch - Creigiau** – 2 ½ mile walk goes through ancient woodlands and over fields taking in places of interest and industrial heritage (approximately 1¼ hours).

**Pentyrch - Creigiau** – taith gerdded 2 ½ milltir drwy goetir hynafol a thros gaeau a heibio mannau o ddiddordeb a threftadaeth ddiwydiannol (tua 1¼ awr).




**Tongwynlais – Wenallt** –3¼ mile walk through Greenmeadow and Coed-y-Wenallt Woods, fields and grasslands with views of the Caerphilly Ridge area (approximately 3 hours).

**Tongwynlais – Y Wenallt** – taith gerdded 3¼ milltir trwy Goedwigoedd Greenmeadow a Choed-y-Wenallt, caeau a thiroedd glaswelltog â golygfeydd o ardal Crib Caerffili (tua 3 awr).




**St. Fagans** – 2 mile walk from the National History Museum through beech woods and over the site of the Battle of St. Fagans (approximately 1 hour).

**Sain Ffagan** – taith gerdded 2 filltir o'r Amgueddfa Werin trwy goedwig ffawydd a thros safle Brwydr Sain Ffagan (tua 1 awr).




**St. Fagans – St. Georges** – 4.7 mile walk along natural paths and country lanes passes through a patchwork of improved grasslands, arable land and woodlands with spectacular views across the Ely Valley.

**Sain Ffagan - St Siôr** – taith gerdded 4.7 ar hyd llwybrau naturiol a lonydd cefn gwlad ar drywydd clytwaith o laswelltiroedd, tiroedd âr a choetiroedd â golygfeydd ysblennydd dros Gwm Elái.

There are leaflets available for all these walks. For further information: www.cardiff.gov.uk/countryside
Mae taflenni ar gael ar gyfer yr holl deithiau cerdded hyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad

**Further information about what you can do outdoors in Cardiff www.outdoorcardiff .com**
**Rhagor o wybodaeth am beth y gallwch ei wneud yn yr awyr agored yng Nghaerdydd www.caerdyddawyragored.com**



# Cardiff's Countryside
*on your doorstep*

# Cefn Gwlad Caerdydd
*ar garreg eich drws*

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

OUTDOOR Cardiff
AWYR AGORED Caerdydd

A Proud Capital
Prifddinas Falch

CARDIFF
CAERDYDD

## Cardiff's Trails Teithiau Cerdded Caerdydd

**Taff Trail Taith Taf**

This is a popular walking and cycling route along the River Taff from Cardiff Bay through Poncanna Fields and Hailey Park to Castell Coch and north to Brecon.

Taith gerdded a seiclo boblogaidd yw hon ar hyd Afon Taf o Fae Caerdydd drwy Gaeau Pontcanna a Pharc Hailey i Gastell Coch ac i'r gogledd tuag at Aberhonddu.

**Ely Trail Llwybr Elái**

This trail is being developed along the River Ely from Grangemoor Park (Cardiff Bay) to St Fagans for cyclists and walkers.

Mae'r daith hon yn cael ei datblygu ar hyd Afon Elái o Barc Grangemoor (Bae Caerdydd) i Sain Ffagan ar gyfer seiclwyr a cherddwyr.

**Rhymney Trail Taith Rhymni**

This walkers trail is being developed from the Foreshore, through Parc Tredellerch, Rumney Hill Gardens following the River Rhymney to the countryside beyond.

Mae'r daith gerdded hon yn cael ei datblygu o'r Blaendraeth, drwy Barc Tredelerch, Gerddi Rumney Hill ar hyd Afon Rhymni i ganol cefn gwlad.

**Nant Fawr Trail Taith Nant Fawr**

This walkers trail is an attractive wildlife corridor starting at Waterloo Gardens through Nant Fawr Woodlands past Lisvane Reservoir and onto the Ridgeway.

Mae'r daith gerdded hon yn llwybr o fywyd gwyllt deniadol sy'n dechrau ger Gerddi Waterloo drwy Goetir Nant Fawr heibio Cronfa Ddŵr Llys-faen ac ymlaen i'r Gefnffordd.

**Glamorgan Ridgeway Walk Taith Gerdded Cefnffordd Morgannwg**

This is a scenic long distance path along the ridgeline from Margam Country Park, near Port Talbot, through spectacular upland and valley scenery to Caerphilly Castle.

Taith gerdded hirdeithiog golygfaolar hyd y gefnen o Barc Gwledig Margam, ger Port Talbot, drwy olygfeydd ysblennydd yr ucheldir a'r cymoedd, i Gastell Caerffili.




© Crown copyright and database rights 2011 Ordnance Survey 100023376
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011 Arolwg Ordnans 100023376

## Green Flag Parks Parciau Baner Werdd

| English | No. | Cymraeg |
|---|---|---|
| Roath Park | 1 | Parc Y Rhath |
| Victoria Park | 2 | Parc Fictoria |
| Grange Gardens | 3 | Gerddi'r Faenor |
| Bute Park | 4 | Parc Bute |
| Cardiff Bay Barrage | 5 | Morglawdd Bae Caerdydd |
| Cathays Cemetery | 6 | Mynwent Cathays |
| Rumney Hill Gardens | 7 | Gerddi Rumney Hill |

Green Flag is the UK national quality award scheme for parks and green spaces. Sites are independently assessed each year and the award of a green flag recognises their high quality and sustainable management. Cardiff has seven Green Flag sites.

Baner Werdd yw cynllun gwobr ansawdd cenedlaethol y du ar gyfer parciau a lleoedd gwyrdd. Caiff safleoedd eu hasesu bob blwyddyn yn annibynnol ac mae ennill gwobr baner werdd yn gydnabyddiaeth o'r rheolaeth gynaliadwy o ansawdd uchel. Mae gan Gaerdydd nifer o safleoedd Baner Werdd

| English | Cymraeg |
|---|---|
| Biodiversity | Bioamrywiaeth |
| Parking | Parcio |
| Fishing | Pysgota |
| Picnic Benches | Byrddau Picnic |
| Trail | Llwybr |
| View Point | Olygfan |
| Bus | Bws |
| Train | Trên |
| Toilets | Toiledau |

## Countryside Parks Parciau Cefn Gwlad

**Tredelerch Park** - This park has a centrepiece 4 hectare lake with a long boardwalk and network of paths. A great place to spot a variety of wildlife from swans and mallards to butterflies and dragonflies.

8



**Parc Tredelerch** - Mae llyn 4 hectar o faint yn ganolbwynt i'r parc hwn â phont gerdded bren a rhwydwaith o lwybrau ar ei hyd. Dyma fan gwych i sylwi ar amrywiaeth o fywyd gwyllt o'r alarch a'r Hwyaden Wyllt i'r iâr fach yr haf a gwas y neidr.

**Grangemoor Park** -This park is near the Cardiff Bay retail park and is based on an upland setting with scenic views over the city, which is well worth the walk.

9



**Parc Grangemoor** - Mae'r parc hwn yn agos at Barc Manwerthu Bae Caerdydd ac wedi ei leoli ar dir uwch â golygfeydd hyfryd dros y ddinas sy'n werth yr ymdrech o gerdded yno.

**Cefn Mably Woods** - These woods are made up of decidous and coniferous trees located in the open countryside north of Pontprennau. You can find a high diversity of plants, birds and invertebrates. There are horse riding paths and jumping course.

10



**Coedwig Cefn Mabli** - Mae coed collddail a phinwydd i'r goedwig hon a leolir mewn lle gwledig agored i'r gogledd o Bontprennau. Gallwch ddod o hyd i amrywiaeth o blanhigion, adar ac infertebratau. Mae yno lwybrau marchogaeth a chwrs neidio ceffylau.

**Parc Cefn Onn** - This Country Park has a truly magnificent collection of native and exotic trees set within an intimate valley. Visitors enjoy the stunning scenery and the calm, relaxing atmosphere.

11



**Parc Cefn Onn** - Mae casgliad gwirioneddol odidog o goed brodorol ac egsotig yn y Parc Gwledig hwn yn tyfu mewn dyffryn clyd. Mae ymwelwyr yn mwynhau'r amgylchedd ymlacedig a thawel a'r olygfa brydferth.

**Fairwater Park** - Known locally as 'The Dell', Fairwater Park is based around a prominent hilltop offering great views around Cardiff and beyond. Cardiff's Ski and Snowboard centre is based in the park making the most of the hill!

12



**Parc y Tyllgoed** - Adnabyddir Parc y Tyllgoed fel y 'Dell' yn lleol ac mae wedi'i leoli o gwmpas bryncyn amlwg sy'n rhoi golygfeydd gwych o gwmpas Caerdydd a thu hwnt. Mae canolfan Sgïo ac Eirafyrddio Caerdydd wedi'i leoli yn y parc gan wneud y mwyaf o'r bryncyn!

**Forest Farm** - This Country Park is a great place to see a variety of wildlife and industrial history. The Glamorganshire Canal runs through the park is a haven for wildlife and an interesting part of Cardiff's History.

13



**Fferm y Fforest** - Mae'r Parc Gwledig hwn yn lle gwych i weld amrywiaeth o fywyd gwyllt a hanes diwydiannol. Mae Camlas Morgannwg sy'n rhedeg drwy'r parc yn hafan i fywyd gwyllt ac yn rhan ddiddorol o Hanes Caerdydd.

**Howardian Nature Reserve** - The park is a wildlife oasis of woodland, wildflower meadow, ponds and reedbeds. An unexpected haven in a compact corner of Cardiff!

14



**Gwarchodfa Natur Howardian** - Mae'r parc yn werddon bywyd gwyllt â'i goetir, dôl blodau gwyllt, pyllau a chorsleoedd. Hafan annisgwyl mewn cornel twt o Gaerdydd!